

Sylwadau'r beirniad. Oedran 8a 9 Dysgwyr : y Penwythnos.

Diolch am fy ngwahodd i feirniadu'r gystadleuaeth.

Saith darn oedd wedi'u cyflwyno . Roeddwn braidd yn siomedig bod cyn lleied wedi ymgeisio gan fyddai mwyafrif o ddisgyblion wedi cyflawni tasg debyg yn y dosbarth .Eto i gyd ,roedd y darnau a ddaeth i law yn ddiddorol , a'r cystadleuwyr i gyd ar y cyfan wedi llwyddo i sgrifennu darnau cynhwysfawr a chryno .

'Roeddwn yn chwilio am amrywiaeth o batrymau iaith a chafwyd hyn gan y saith gyda nifer yn defnyddio amser presennol a'r gorffennol o'r ferf a chystrawenau a geirfa effeithiol o ran iaith a mynegiant .Roedd y sillafu a'r atalnodi yn gywir ar y cyfan

Defnyddiodd nifer o ymgeiswyr idiomau Cymraeg megis "heb os nac onibai", "yn wên o glust i glust" "yn dân ar fy nghroen"

Diolch i chi gyd am gystadlu , daliwch ati !

1af - Mel. Disgrifiad taith i Baris wrth ddathlu pen-blwydd. Mae safon y gwaith yma yn arbennig .

Mwynheuais ddarllen am y daith. Mae'r iaith o ansawdd dda, yn defnyddio nifer o batrymau iaith i greu darn diddorol yn cynnwys amrywiaeth ar ffurf y ferf, mynegi barn a theimladau gwahanol wrth fynd ar amryw o'r atyniadau. Defnydd da o idiomau Cymraeg . Mae Mel yn llwyr deilwng o'r wobwr gynta.

2il - Ceffyl Arian. Disgrifiad penwythnos ym Mhorthcawl lle wnaeth gystadlu mewn sioe dalent . Safon yr iaith ar y cyfan yn dda ,darn diddorol yn cynnwys amrywiaeth o batrymau iaith . Wedi llwyddo i greu y cyffro a'r tensiwn wrth iddi gystadlu ac aros am ganlyniad y gystadleuaeth.

3ydd -Blodyn . Hanes trip i'r sinema . Safon yr iaith yn dda , sillafu a'r atalnodi yn gywir ar y cyfan .Hoffais ddisgrifiadau manwl o'r cymeriadau yn y ffilm wrth iddi/o fynegi barn ac hoffter gyda rhesymau.

1af Mel. 403/5

2il Ceffyl Arian. 403/4

3ydd Blodyn. 403/7

Ddraig goch 403/2

Eto , darn diddorol ac yn bleser ei ddarllen .Wedi llwyddo i greu naws a chyffro y gêm pêl droed wrth iddi a'i chydchwarawyr chwarae yn Abertwsswg. Diweddglo effeithiol.defnydd da o idiomau Cymraeg

Twts 403/6 Newyddion tridie y penwythnos. Ymweliad â Paris.Disgrifiadau da o brif atyniadau'r brifddinas . Hoffais y frawddeg ola'

Seren Aur 403/3 Ymweliad â Chaerdydd i siopa gan fynd i'r sinema ar y ffordd adre . Patrymau iaith amrywiol a'r darn wedi ei sgrifennu'n gywir . Hoffais "Ar ôl mynd fel Usain Bolt cyrrhaeddod ni jyst mewn pryd. "

Aderyn gwyn 403/1

Disgrifiad o'r gystadleuaeth Jiwdo a'r ymgais i godi arian tuag at ymchwil tiwmor yr ymennydd. Mae'n gorffen gyda'r newyddion trist o farwolaeth ei ffrind oedd yn diodde o'r salwch . Dyw'r darn ddim yn llifo'n rhwydd . Mae yna nifer fawr o wallau sillafu a gramadeg yn anffodus .